| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **4 Gorffennaf 2017** |
| **Awduron yr Adroddiad:** | **Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio/ Cydlynydd Archwilio** |
| **Cyflwynir gan:** | **Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio 2016/17)** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol Pwyllgorau Archwilio'r Cyngor 2016/17** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Archwilio i'r Cyngor ar gyfer 2016/17.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Cyflwyno adroddiad blynyddol am weithgareddau'r Pwyllgor Archwilio yn 2016/17 i'r Cyngor.

2.2 Cydymffurfio ag Adran 7.4.4 o Gyfansoddiad y Cyngor sy'n nodi fod yn rhaid i Bwyllgorau Archwilio adrodd yn flynyddol i'r Cyngor llawn ar eu gwaith a gwneud argymhellion ar gyfer rhaglenni gwaith i'r dyfodol a dulliau gwaith diwygiedig os yn briodol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cyngor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Archwilio ar gyfer 2016/17 ac yn cyflwyno sylwadau yn unol â hynny.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn nodi y bydd pwyllgorau archwilio'r Awdurdod yn adrodd yn flynyddol ar eu gweithgareddau yn ystod y flwyddyn i'r Cyngor Sir.

4.2 Mae Adroddiad Blynyddol eleni yn dilyn fformat tebyg i'r un a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'n rhoi trosolwg cryno i'r darllenydd o sut mae archwilio yn gweithredu, a'r gwaith mae archwilio wedi ei wneud i geisio cefnogi'r gwaith o gyflawni saith blaenoriaeth gorfforaethol y Cyngor yn ogystal â gwaith arall a wnaed gan aelodau archwilio a grwpiau tasg a gorffen. Mae'r adroddiad hefyd yn dweud wrth drigolion sut y gallant gymryd rhan a chyfrannu at y broses archwilio. Gellir gweld copi o'r adroddiad drafft yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn. Bydd yr adroddiad ar gael maes o law ar wefan y Cyngor.

4.3 Yn ystod 2016/17, fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae archwilio wedi bod yn gyfrifol am ystod o waith archwilio cyn gwneud penderfyniadau ac ar ôl gwneud

penderfyniadau. Mae archwilio hefyd wedi bod yn rhan reolaidd o waith monitro perfformiad, wedi cymryd rhan mewn ymarferion ymgynghori a gwahoddwyd nifer o sefydliadau allanol neu bartner i gyfarfod gyda phwyllgorau i drafod meysydd o ddiddordeb neu bryder cyffredin.

4.4 Mae'r adroddiad yn cynnwys crynodeb o'r casgliadau a gyrhaeddwyd yn dilyn trafodaethau ar amryw i destunau gan bob pwyllgor archwilio. Mae hefyd yn cynnwys crynodeb o ganfyddiadau gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen Torri'r Brethyn. Hwn oedd y Grŵp a sefydlwyd i archwilio effaith wirioneddol penderfyniadau cyllideb 'Torri'r Brethyn' ar gymunedau Sir Ddinbych a'i thrigolion ar ôl eu rhoi ar waith. Gwneir cyfeiriad hefyd at y cynnydd a gyflawnwyd hyd yma gan y Grŵp Tasg a Gorffen sy'n archwilio dewisiadau posibl ar gyfer y dyfodol ar gyfer darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i henoed.

4.5 Fel yn y blynyddoedd diwethaf mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys ffurflen sy'n galluogi'r cyhoedd i awgrymu meysydd neu wasanaethau i'w hystyried gan archwilio. Y rhesymeg y tu ôl i'r ffurflen hon yw ceisio ennyn diddordeb y cyhoedd a gwella rhyngweithio rhwng trigolion ag archwilio yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol.

4.6 Wrth ystyried cais am fater i'w archwilio, boed yn gais gan aelod etholedig, swyddog neu gan y cyhoedd, mae'r meini prawf canlynol yn berthnasol i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio wrth iddynt benderfynu a yw'r eitemau angen eu harchwilio:

- a yw'n fater o ddiddordeb i'r cyhoedd?
- oes gan Archwilio'r gallu i ddylanwadu neu newid pethau?
- ydi'r gwaith yn gysylltiedig â gwasanaeth sy'n tanberfformio?
- ydi'r mater yn effeithio ar nifer fawr o drigolion neu ardal ddaearyddol fawr?
- oes unrhyw un arall yn edrych arno?

4.7 Mae'n bleser adrodd bod mwy o'r cyhoedd wedi bod yn bresennol mewn cyfarfodydd archwilio yn ystod 2016/17 nag yn y blynyddoedd blaenorol, er bod hyn yn fwy na thebyg oherwydd natur ddadleuol y pynciau oedd yn cael eu trafod. Serch hynny, mae'n ymddangos bod diddordeb y cyhoedd mewn gwaith archwilio yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Yn ogystal, mae nifer o gwestiynau a gyflwynwyd gan y cyhoedd wedi cael eu codi yn ystod trafodaethau archwilio.

4.8 Cyfeiriwyd mewn adroddiadau blynyddol diweddar at astudiaeth genedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru ar archwilio yng Nghymru, *Craffu Da? Cwestiwn da!* Mae'r adroddiad hwn wedi dod i'r casgliad fod angen cryfhau swyddogaeth archwilio ar draws llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol. Mae hefyd yn pwysleisio manteision defnyddio archwilio fel modd o ymgysylltu â thrigolion a defnyddwyr gwasanaeth er mwyn gwneud penderfyniadau gwell sy'n arwain at ganlyniadau gwell i drigolion. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae archwilio wedi dechrau gwella ei waith yn y maes hwn. Er enghraifft, yn ogystal â gwahodd trigolion i awgrymu meysydd i'w harchwilio, maent hefyd wedi eu gwahodd trwy gyfryngau cymdeithasol a datganiadau i'r wasg, i gyflwyno tystiolaeth i'r Grŵp Tasg a Gorffen Torri'r Brethyn. Mae archwilio hefyd wedi parhau i gwrdd â nifer o sefydliadau partner a chwmnïau/darparwyr allanol i drafod materion o bryder i drigolion ac i gymryd rhan mewn ymarferion ymgynghori yr oeddent yn eu cynnal.

4.9 O ganlyniad i adroddiad cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru mae cyfres o '*Ganlyniadau a Nodweddion Archwilio Effeithiol*' wedi'u datblygu a'u mabwysiadu ar sail Cymru gyfan. Nod y nodweddion hyn yw cefnogi'r broses o gyflwyno canlyniadau gwell, drwy wneud penderfyniadau gwell, yn seiliedig ar ymgysylltiad gwell â thrigolion a budd-ddeiliaid.

4.10 Yn ystod y flwyddyn i ddod, bydd gan archwilio ran bwysig i'w chwarae wrth gefnogi datblygiad blaenoriaethau corfforaethol newydd y Cyngor a'r Cynllun Corfforaethol cysylltiedig. Bydd gwaith y 'Grŵp Tasg a Gorffen Dyfodol Gofal Cymdeithasol i Oedolion Mewnol' yn parhau, felly bydd Archwilio yn parhau i archwilio unrhyw gynigion y mae'n eu cyflwyno. Bydd hefyd yn parhau i roi her gadarn i gasgliadau Asesiadau Effaith Lles a gynhelir wrth ddatblygu polisïau i sicrhau bod y canlyniadau'n gynaliadwy a bydd yn cefnogi darpariaeth amcanion ac egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

4.11 Mae disgwyliad cyffredinol hefyd y bydd cyllid llywodraeth leol gan lywodraeth ganol yn parhau i leihau o flwyddyn i flwyddyn yn ystod tymor y Cyngor newydd hwn. Serch hyn, disgwylir i'r pwysau ar wasanaethau llywodraeth leol o ran y galw am wasanaethau gynyddu fel y bydd disgwyliadau trigolion. Bydd angen i'r Cyngor ddod o hyd i ffordd o fuddsoddi yn y blaenoriaethau a gytunwyd ganddo tra ar yr un pryd ddiogelu gwasanaethau a werthfawrogir yn fawr. Mae hyn yn golygu fod penderfyniadau anodd o'n blaenau yn ystod tymor newydd y Cyngor wrth iddo geisio dod o hyd i atebion fforddiadwy i ateb y galw. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol weithio'n agosach ac yn well gyda'i gilydd i ddatblygu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion dinasyddion e.e. bydd cyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn dod yn realiti o fewn y deuddeg mis nesaf. Bydd gan archwilio ran bwysig i'w chwarae wrth gefnogi cyflawniad y newidiadau hyn, gan sicrhau bod trefniadau newydd yn effeithiol, effeithlon, ac yn cynnig gwerth am arian tra'n gwella canlyniadau ar gyfer unigolion.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd archwilio effeithiol yn gymorth i'r Cyngor gyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol yn unol ag anghenion cymunedau, dymuniadau trigolion ac o fewn cyllideb.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol yn rhan o ddosbarthiad adroddiadau pwyllgorau rheolaidd i gynghorwyr sir a derbynwyr eraill, felly nid oes unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm â'i gyhoeddi. Ar ôl ei gymeradwyo a'i gyfieithu bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei ddosbarthu i leoliadau'r Cyngor fel llyfrgelloedd, Siopau Un Alwad a chynghorau tref a chymuned, gyda fersiynau electronig yn cael eu hanfon i bob cyngor ysgol yn y Sir. Bydd ar gael hefyd ar fewnrwyd a gwefan y Cyngor.

6.2 Telir unrhyw gostau mewn perthynas â gwaith y grwpiau tasg a gorffen o fewn y cyllidebau presennol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad cyflawn yr Asesiad o Effaith ar Les oddi ar y wefan, a dylid ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn**

Nid yw Asesiad o Effaith ar Les yn ofynnol ar gyfer yr adroddiad hwn gan nad ydym yn gofyn am unrhyw benderfyniad na newid polisi. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i hysbysu cynghorwyr a thrigolion am waith y Pwyllgorau Archwilio yn ystod y deuddeg mis blaenorol ac fel modd o amlinellu meysydd gwaith posibl yn y dyfodol.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Mae aelodau'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio wedi bod yn ymwneud â drafftio'r Adroddiad Blynyddol ac ymgynghorwyd â nhw ar ei gynnwys.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes goblygiadau ariannol sylweddol o ganlyniad i'r adroddiad hwn. Fe y soniwyd ym mharagraff 6 uchod bydd unrhyw gostau yn ymwneud â chynhyrchu'r Adroddiad yn cael eu cynnwys o fewn cyllidebau presennol, fel y bydd unrhyw gostau yn deillio o sefydlu grwpiau tasg a gorffen.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes unrhyw risgiau wedi eu nodi mewn perthynas ag ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Adran 7.4.4 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi fod yn rhaid i Bwyllgorau Archwilio'r Cyngor adrodd yn flynyddol i'r Cyngor llawn ar eu gwaith a gwneud argymhellion ar gyfer rhaglenni gwaith i'r dyfodol a dulliau gwaith diwygiedig os yn briodol.

**Swyddog Cyswllt:**

Cydlynydd Archwilio

Ffôn: 01824 712554

rhian.evans@denbighshire.gov.uk